Dyddiad: 27/09/2020

Annwyl Riant neu Ofalwr,

Ynghylch: Gwybodaeth am achos a gadarnhawyd o'r coronafeirws ym mlwyddyn 8 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Mae gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru wedi cael gwybod am achos a gadarnhawyd o COVID-19 (y Coronafeirws) **ym mlwyddyn 8 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe**.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe yn parhau ar agor. Mae'n gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Awdurdod Lleol a gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru er mwyn sicrhau bod yr holl fesurau priodol ar waith i ddiogelu myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach. Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu am y sefyllfa bresennol a rhoi cyngor ar sut y gallwch gefnogi eich plentyn.

Nodwyd holl gysylltiadau agos yr achos ac maent wedi cael cyngor priodol i hunanynysu (pob disgybl ym mlwyddyn 8 yn unig). Ar wahan i unigolion sydd wedi eu hadnabod yn barod gan y tim profi, olrhain a diogelu, **ni nodwyd bod unrhyw ddisgybl ym mlynyddoedd 7, 9, 10, 11, 12 a 13eg yn gysylltiad agos ac felly nid oes angen iddynt hunanynysu na chael prawf COVID-19. Gall ddisgyblion sydd yn deilwng i gludiant ysgol barhau i deithio ar eu bws ysgol arferol.** Gallant barhau i fynychu **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** yn ôl yr arfer.

Fodd bynnag, dim ond rhag ofn, cadwch lygad am unrhyw rai o symptomau COVID-19:

- Peswch newydd neu gyson
- Tymheredd uchel
- Colli synnwyr arogleuo neu synnwyr blasu, neu newid iddynt

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw rai o'r symptomau hyn, hyd yn oed os na fyddant yn ddifrifol:

- Trefnwch brawf iddo drwy ffonio 01639 862757 neu 119 neu drwy fynd i'r porth ar-lein: https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test
- Rhowch wybod i **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** ei fod yn teimlo'n anhwylus gyda symptomau COVID-19 a'ch bod wedi gofyn am brawf
- Dylai eich plentyn hunanynysu am 10 diwrnod o'r diwrnod y dechreuodd ei symptomau
- Dylai pawb arall sydd ar yr aelwyd ynysu am 14 diwrnod o'r adeg y datblygodd eich plentyn symptomau

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

- Peidiwch ag ymweld â meddygfa, fferyllfa nac ysbyty ond os bydd angen cyngor meddygol arnoch ffoniwch y GIG ar 111 neu ffoniwch eich meddyg teulu; os bydd argyfwng meddygol ffoniwch 999
- Dilynwch y cyngor a roddir pan fydd eich plentyn yn cael canlyniadau ei brawf

Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19, mae pethau y gall pawb yn eich teulu eu gwneud i helpu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- golchi eich dwylo â dŵr a sebon yn aml, am o leiaf 20 eiliad
- defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- golchi eich dwylo cyn gynted ag y byddwch gartref
- gorchuddio eich ceg a'ch trwyn â hances neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch yn peswch neu'n tisian
- rhoi hancesi yn y bin ar unwaith ar ôl eu defnyddio a golchi eich dwylo wedyn

Mae rhagor o wybodaeth am symptomau a hunanynysu ar gael yma https://llyw.cymru/gwiriad-olrhain-cysylltiadau-dyddiol-symptomau-canllawiau-chymorth
Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu ar gael yma https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws
I gael gwybodaeth gyffredinol am COVID-19 https://llyw.cymru/amddiffyn-eich-hun-ag-eraill-rhag-y-coronafeirws
Gall gwiriwr symptomau ar-lein COVID-19 ddweud wrthych a oes angen help meddygol arnoch a'ch cynghori ynghylch beth i'w wneud https://llyw.cymru/oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Wales School of Rugby
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales